# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Newidiadau Pensiwn y Wladwriaeth: erthygl

Gellir defnyddio'r testun isod ar eich gwefan,rhyngrwyd, rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol neu mewn cylch llythyr.



### Awgrym o ddarlun pennawd:




### Awgrym o deitl erthygl:

Pensiwn newydd y Wladwriaeth: beth mae'r newidiadau'n golygu i chi

### Awgrym o destun erthygl:

Mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi cael ei gyflwyno ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Byddwch yn gallu gwneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth os ydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. Mae hyn yn berthnasol i:

- dynion wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951
- merched wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953

Os ganwyd chi cyn y dyddiadau hyn byddwch yn gallu gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth o dan yr hen gynllun yn lle hynny.

Gallwch wirio pa bryd byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn www.gov.uk/state-pension-age.

**Faint fyddwch yn cael?**

Y Pensiwn newydd y Wladwriaeth lawn yw £155.65 yr wythnos (cyfradd 2016/17). Bydd faint a gewch pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn newdd y Wladwriaeth yn dibynnu yn bennaf ar eich cofnod Yswiriant Gwladol. Fel arfer byddwch angen o leiaf 10 mlynedd cymhwyso ar eich cofnod Yswiriant Gwladol i gael unrhyw Bensiwn newydd y Wladwriaeth.

Gan fod Pensiwn newydd y Wladwriaeth fel arfer yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol eich hun gallech gael mwy neu lai na'r gyfradd lawn mewn amgylchiadau penodol. Byddwn yn cyfrifo'r isafswm o Bensiwn newydd y Wladwriaeth y gallech gael pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. I wneud hyn, rydym yn gwneud dau gyfrifiad i weithio allan eich swm cychwynnol, a fydd yr uchaf o naill ai:

- y swm y buasech yn ei gael o dan yr hen reolau Pensiwn y Wladwriaeth (sy'n cynnwys Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth
- y swm y buasech wedi ei gael o dan y rheolau Pensiwn newydd y Wladwriaeth

Parhad ar dudalen 2

Cyhoeddwyd mis Ebrill 2016

# Newidiadau Pensiwn y Wladwriaeth: erthygl

Gellir defnyddio'r testun isod ar eich gwefan,rhyngrwyd, rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol neu mewn cylch lythyr.



Bydd symiau cychwynnol yn cynnwys rhywfaint o addasiad am amser wedi eithrio o'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Oni bai eich bod eisoes ar y swm llawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth, o £155.65 pob wythnos (cyfradd 2016/17 ) neu wedi cyrraedd oedran Pensiwn newydd y Wladwriaeth, byddwch yn ychwanegu i'ch Pensiwn newydd y Wladwriaeth 1/35 o'r swm llawn (tua £4.45 am 2016/17) am bob blwyddyn gymhwyso ar eich cofnod o 6 Ebrill 2016.

**Eithrio**

Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl cyflwyniad Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar ryw adeg - rhywbeth nad ydynt efallai'n ymwybodol ohonno.

Mae gan yr hen Bensiwn y Wladwriaeth ddwy ran: Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (weithiau'n cael ei alw'n Ail Bensiwn y Wladwriaeth, S2P neu SERPS). Roedd unrhyw un sydd wedi eithrio naill ai'n talu Yswiriant Gwladol ar gyfradd is neu cafodd rhywfaint o'u cyfraniadau Yswiriant Gwladol eu defnyddio i gyfrannu i bensiwn preifat yn lle Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth. Bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fyddwn yn gweithio allan eich Swm Cychwynnol yn y system newydd.

Mae hyn yn golygu er y bydd llawer o bobl gyda mwy na 35 mlynedd cymhwyso yn cael Swm Cychwynnol is na'r gyfradd lawn o'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth, bydd llawer gyda mwy na'r gyfradd lawn os ydynt yn ychwanegu eu Pensiwn y Wladwriaeth ac eithrio at ei gilydd. Roedd eich taliadau Yswiriant Gwladol gostyngedig yn eich helpu i adeiladu pensiwn preifat pan wnaethoch eithrio o ran o Bensiwn y Wladwriaeth. Felly nid ydych yn colli allan, dim ond yn cael yr un fath mewn ffordd wahanol.

O fis Ebrill 2016, bydd eithrio'n dod i ben a bydd y gostyngiad mewn Yswiriant Gwladol mae cyflogwyr a gweithwyr wedi eithrio yn cael nawr hefyd yn dod i ben. Ym mis Ebrill 2016 daeth eithrio i ben - a'r gostyngiad mewn Yswiriant Gwladol a gafodd cyflogwr wedi eithrio.

Am fwy o wybodaeth ar y newidiadau hyn a beth maent yn ei olygu i chi, ymwelwch â www.gov.uk/yourstatepension.

Gellir cael hyd i animeiddiad yn esbonio eithrio a'r effaith ar Bensiwn newydd y Wladwriaeth ar Pension Tube. Gallwch weld y fideo hwn a rhai eraill tebyg yn www.youtube.com/pensiontube

Cyhoeddwyd mis Ebrill 2016